

# Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu Hawliau Dynol

Medi 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6472**

E-bost: **[Sara.Moran2@senedd.cymru](mailto:Sara.Moran2@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#) | [Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu Hawliau Dynol

Medi 2022

---

**Awdur:**  
Sara Moran



Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gosod y telerau ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE. Mae'r gyfres hon yn crynhoi rhannau allweddol o'r cytundeb a'r hyn y maent yn ei olygu i Gymru. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar hawliau dynol.

Ymadawodd y DU â'r UE yn ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2019 a dechreuwyd ar gyfnod pontio tra bod telerau ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol yn cael eu trafod.

Ar 24 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y DU a'r UE eu bod wedi dod i gytundeb ar delerau eu perthynas yn y dyfodol yn y **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** ochr yn ochr â nifer o gytundebau a datganiadau ar y cyd erill.

Daeth y cytundeb i rym dros dro o 1 Ionawr 2021, wrth aros am gadarnhad y DU a'r UE. Daeth i rym yn llawn ar 1 Mai 2021.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn dilyn y **Cytundeb Ymadael**, a oedd yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawriad y DU â'r UE. Mae'r ddau gytundeb yn parhau mewn grym.

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno y bydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llywodraethu cytundebau yn y dyfodol rhwng:

- y DU a'r UE;
- y DU a'r UE a 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE; a
- chytundebau dwyochrog rhwng y DU ac Euratom.

oni ddarperir fel arall yn y cytundebau eu hunain. Gelwir y cytundebau hyn yn 'gytundebau atodol' yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac maent yn rhan o'r fframwaith cyffredinol fel rhan annatod o'r cysylltiadau dwyochrog rhwng y DU a'r UE.

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
<b>2. Gwneud penderfyniadau rhwng y DU a'r UE</b> .....	<b>1</b>
Ble mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am hawliau dynol? .....	1
<b>3. Hawliau dynol yn y Cytundeb</b> .....	<b>4</b>
Ewyllys da a chydymffurfiad .....	4
Elfennau hanfodol .....	4
Toriadau .....	4
Diogelu ac ailgydbwysu mesurau .....	4
Sail ar gyfer cydweithredu.....	5
Cytundeb Ymadael fel sail ar gyfer cydweithredu .....	6
<b>4. Gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol</b> .....	<b>6</b>
Terfynu .....	6
Atal.....	7
<b>5. Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)</b> .....	<b>7</b>
Cyd-destun hanesyddol .....	7
Newidiadau i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 .....	8
Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru .....	8

---

## 1. Cyflwyniad

Cytunodd y DU a'r UE ar delerau eu perthynas newydd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut mae ymrwymïadau hawliau dynol wedi'u hymgorffori yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE.

Mae'r Cytundeb yn gwneud cydweithredu rhwng y DU a'r UE yn ddibynnol ar 'barch at hawliau dynol'. Mae hyn yn berthnasol i'r Cytundeb ac i gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Mae ymrwymïadau hawliau dynol penodol hefyd wedi'u cynnwys yn Rhan 3 o'r Cytundeb, ar orfodi'r gyfraith a chydweithrediad barnwrol.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio:

- lle mae penderfyniadau rhwng y DU a'r UE ar hawliau dynol yn cael eu gwneud ar ôl Brexit;
- hawliau dynol yn y Cytundeb;
- gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol; ac
- y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).

## 2. Gwneud penderfyniadau rhwng y DU a'r UE

Mae'r Cytundeb yn sefydlu rhwydwaith cymhleth o fforymau newydd rhwng y DU a'r UE, a nodir mewn ffeithlun ar y dudalen nesaf. Mae ein canllaw i **fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu** yn rhoi mwy o fanylion am bwerau a rôl pob fforwm.

Gall Llywodraeth Cymru fynd i rai o'r cyfarfodydd fel sylwedydd. Mae erthyglau Ymchwil y Senedd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar **sut y caiff Cymru ei chynrychioli** mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ac **olrhain cyfarfodydd**.

### **Ble mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am hawliau dynol?**

Mae trafodaethau a phenderfyniadau ar ddarpariaethau hawliau dynol y Cytundeb yn fwyaf tebygol o ddigwydd mewn dau fforwm:

#### **Y Cyngor Partneriaeth**

Y Cyngor Partneriaeth yw'r prif gorff goruchwylio. Yma, mae dirprwyaethau o'r DU


a'r UE yn trafod gweithredu'r cytundeb, gan gynnwys ei **sail ar gyfer cydweithredu** ac **elfennau hanfodol** a ddisgrifir yn adran 3 o'r canllaw hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r Cyngor Partneriaeth fel sylwedydd;

### **Pwyllgorau Arbenigol**

Y Pwyllgor Arbenigol ar Orfodi'r Gyfraith a Chydweithrediad Barnwrol yw'r pwyllgor arweiniol ar gyfer amddiffyniadau hawliau dynol yn Rhan 3 o'r Cytundeb, sydd wedi'i grynhoi yn adran 4 y canllaw hwn. Aeth un o swyddogion Llywodraeth Cymru i **cyfarfod cyntaf ac unig gyfarfod** y Pwyllgor hwn hyd yma, ym mis Hydref 2021.

Dangosir fframwaith sefydliadol y Cytundeb ar y dudalen nesaf.

**Cytundeb Masnach a Chydweithredu: fframwaith sefydliadol**





### 3. Hawliau dynol yn y Cytundeb

Mae hawliau dynol wedi'u gwreiddio yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE fel bod eu cydweithrediad yn dibynnu ar 'barch at hawliau dynol'. Mae hyn yn berthnasol i'r Cytundeb ac i gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Mae'r Cytundeb yn cyfeirio'n bennaf at y **Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)** ac, ar gyfer Aelod-wladwriaethau'r UE, **Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE**. Mae hefyd yn pwysleisio rhoi effaith i hawliau a rhyddid y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ddomestig. I'r DU, mae hwn yn gyfeiriad clir at **Ddeddf Hawliau Dynol 1998**.

#### **Ewyllys da a chydymffurfiad**

Yn gyffredinol, mae'r Cytundeb yn ymrwymo'r DU a'r UE i gydweithio'n ddidwyll ac i ymatal rhag cymryd mesurau sy'n peryglu eu cydamcanion a geir yn y Cytundeb neu gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol (Erthygl 3).

#### **Elfennau hanfodol**

Mae 'parch at hawliau dynol' yn un o bum 'elfen hanfodol' o'r Cytundeb a chytundebau dilynol rhwng y DU a'r UE (Erthygl 771). Mae gan elfennau hanfodol statws uwch yn y Cytundeb oherwydd gall eu torri arwain at derfynu'r cytundeb. Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae hyn yn gweithio.

#### **Toriadau**

---

Torri elfen hanfodol yw'r ffordd gyflymaf o derfynu'r Cytundeb neu gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o fewn 30 diwrnod (Erthygl 772).

#### **Diogelu ac ailgydbwysu mesurau**

---

Mae Erthygl 773 yn caniatáu i'r DU neu'r UE gymryd mesurau diogelu yn unochrog os ydynt yn ystyried bod yr ochr arall wedi gwneud methiant difrifol a sylweddol i gyflawni ei rhwymedigaethau elfennau hanfodol.

Caniateir mesurau diogelu dim ond pan fydd methiant o'r fath wedi achosi:

serious economic, societal or environmental difficulties of a sectorial or regional nature, including in relation to fishing activities and their dependent communities.

Gall y parti arall ymateb gyda mesurau ailgydbwysu i unioni anghydbwysedd a achosir gan fesurau diogelu.

At hynny, gall darpariaethau'r Cytundeb ar elfennau hanfodol mesurau diogelu ac ailgydbwysu gael eu cymhwysu'n awtomatig i gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, oni bai eu bod yn darparu'n benodol fel arall.

## Sail ar gyfer cydweithredu

Mae'r Cytundeb yn nodi wyth sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE yn Erthyglau 763-770, ac un ohonynt yw 'democratiaeth, rheolaeth y gyfraith a hawliau dynol'.

Mae Erthygl 763(1) yn ymrwmo'r DU a'r UE i wneud y canlynol:

continue to uphold the shared values and principles of democracy, the rule of law, and respect for human rights, which underpin their domestic and international policies.

Mae'r DU a'r UE yn ailddatgan eu parch at y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'r cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol y maent yn rhan ohonynt.

Mae Erthygl 763(2) hefyd yn ymrwmo'r DU a'r UE i hyrwyddo'r gwerthoedd a'r egwyddorion cyffredin hyn mewn fforymau rhyngwladol ac i gydweithredu wrth wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys eu cyswllt â thrydydd gwledydd.

Yn ogystal, mae pob un o'r saith sail arall ar gyfer cydweithredu yn cyffwrdd â materion hawliau dynol:

- y frwydr yn erbyn newid hinsawdd (Erthygl 764);
- gwrthweithio amlhau arfau dinistr torfol (Erthygl 765);
- breichiau bach ac arfau ysgafn ac arfau confensiynol eraill (Erthygl 766);
- y troseddau mwyaf difrifol sy'n peri pryder i'r gymuned ryngwladol (Erthygl 767);
- gwrthderfysgaeth (Erthygl 768);
- diogelu data personol (Erthygl 769); a
- chydweithredu byd-eang ar faterion o ddiddordeb economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a rennir (Erthygl 770).

## Cytundeb Ymadael fel sail ar gyfer cydweithredu

---

Mae'r **UE wedi ei gwneud yn glir** bod y Cytundeb Ymadael yn ffurfio'r "sylfaen angenrheidiol ar gyfer y Cytundeb Masnach a Chydweithredu". Mae hefyd wedi dweud bod yn rhaid i'r **berthynas rhwng y DU a'r UE:**

be based on the full respect of the legally binding commitments that we have made to one another.

Adlewyrchir hyn yn Erthygl 775 o'r Cytundeb, sy'n datgan ei fod yn gymwys heb ragfarn i gytundebau 'dwyochrog cynharach' rhwng y DU a'r UE a bod y partion yn ailddatgan eu rhwymedigaethau i weithredu unrhyw gytundeb o'r fath.

Mewn gwirionedd, cyfeiriad yw hwn at y Cytundeb Ymadael, gan nad oes unrhyw gytundebau dwyochrog cynharach rhwng y DU a'r UE/Euratom.

## 4. Gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol

Mae ymrwymadau hawliau dynol penodol hefyd wedi'u cynnwys yn Rhan 3 o'r Cytundeb, ar orfodi'r gyfraith a chydweithrediad barnwrol mewn materion troseddol. Mae enghreifftiau o gydweithredu yn cynnwys cyfnewid DNA, data olion bysedd a chofrestru cerbydau, a gwybodaeth cofnodion troseddol.

Dyfynnir y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel sail ar gyfer cydweithredu yn y maes hwn yn Erthygl 524, sydd hefyd yn pwysleisio:

the importance of giving effect to the rights and freedoms in that Convention [the ECHR] domestically.

I'r DU, mae hwn yn gyfeiriad clir at Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

### Terfynu

Mae erthygl 692 yn caniatáu i'r DU neu'r UE derfynu Rhan 3 gyda naw mis o rybudd.

Fodd bynnag, gellir terfynu Rhan 3 yn gynt os bydd y naill yn terfynu Rhan 3 oherwydd bod y llall wedi condempio'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu ei Brotocolau 1, 6 neu 13. Os bydd hyn yn digwydd, byddai Rhan 3 yn cael ei therfynu naill ai ar y dyddiad y daw'r condemiad i rym neu o fewn 15 diwrnod, yn dibynnu ar sut mae'r condemiad yn digwydd.

## Atal

Mae Erthygl 693 yn caniatáu i'r DU neu'r UE atal Rhan 3 i gyd neu rannau ohoni yn achos:

serious and systemic deficiencies within one Party as regards the protection of fundamental rights or the principle of the rule of law.

Mae Erthygl 693 yn nodi gofynion gweithdrefnol manwl ar gyfer atal, gan gynnwys rôl y Cyngor Partneriaeth a'r Pwyllgor Arbenigol ar Orfodi'r Gyfraith a Chydweithrediad Barnwrol.

O dan Erthygl 693, mae gan y DU a'r UE opsiynau hyblyg i atal Rhan 3 yn llwyr neu rannau ohoni gyda thri mis o rybudd (mae eithriadau'n berthnasol).

## 5. Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

### Cyd-destun hanesyddol

Nid yw ymadawiad y DU â'r UE yn effeithio ar ei statws fel parti i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), sef cytuniad Cyngor Ewrop.

#### Cyngor Ewrop

Cyngor Ewrop yw prif sefydliad hawliau dynol cyfandir Ewrop, gyda 47 o aelod-wladwriaethau a chwe sylwedydd-wladwriaeth. Mae ar wahân i'r UE, ac mae'n ei rhagddyddio. Mae'r UE a phob un o 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE yn aelodau o Gyngor Ewrop.

Mae ei Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) wedi'i ymgorffori yng nghyfraith ddomestig y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol lys, sef y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd ac sydd wedi'i leoli yn Strasbwrg.

Gall llysoedd y DU a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ddatgan bod cyfreithiau'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Yn ystod trafodaethau'r Cytundeb, **gwnaeth yr UE** gydweithredu yn y dyfodol yn amodol ar ymrwymiad ysgrifenedig gan Lywodraeth y DU y byddai'r Confensiwn

Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'i ddeddfwriaeth weithredu yn parhau i gael eu rhoi ar waith yn y DU "fel y gall unigolion ddibynnu arno".

**Dywedodd Prif Drafodwr yr UE ar y pryd, Michel Barnier, wrth ohebwy** fod Llywodraeth y DU ar y pryd yn gwrthod cynnwys yr ymrwymiad hwn, a oedd yn mynd yn groes i **sefyllfa negodi'r DU**. Roedd yn nodi:

the [future UK-EU] agreement should not specify how the UK or the EU Member States should protect and enforce human rights and the rule of law within their own autonomous legal system.

Yn ddiweddarach, newidiodd Llywodraeth y DU ei safbwynt a chytunodd i gynnwys ymrwymiad ysgrifenedig yn y **Datganiad Gwleidyddol**, a oedd yn cydfynd â'r Cytundeb Ymadael, a chafodd ymrwymiadau tebyg eu hymgorffori'n ddiweddarach yn y Cytundeb.

## Newidiadau i Ddeddf Hawliau Dynol 1998

Er bod seneddwr, academyddion ac arbenigwyr yn anghytuno ar y graddau y mae'r Cytundeb yn cysylltu'r DU â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'i ddeddfwriaeth weithredu yn y DU, mae'r rhan fwyaf yn cytuno bod gan Lywodraeth y DU sawl opsiwn i gyfyngu ar hawliau'r Confensiwn tra'n osgoi gadael y Confensiwn, gan ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol neu dorri rhwymedigaethau rhwng y DU a'r UE.

Er enghraifft, mae Frederik Cowell o **Ysgol Economeg Llundain** yn awgrymu y gallai Llywodraeth y DU gyfyngu ar y ffordd y caiff cyfraith achosion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ei chymhwyso yn llysoedd y DU neu gyfyngu ar gymhwysedd hawliau'r Confensiwn mewn sefyllfaoedd penodol, fel y cynigiodd yn y **Bil Gweithrediadau Tramor**. Yn wreiddiol, roedd y Bil yn cynnwys dyletswydd i ystyried rhanddirymu o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn perthynas â gweithrediadau milwrol tramor yn y dyfodol.

## Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru

Mae'n debygol y bydd newidiadau yn y dyfodol i ddull y DU o ymdrin â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cael eu monitro'n agos gan yr UE, y bydd eu hasesiad a'u hymateb yn hanfodol i gydweithrediad rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Os yw'r UE o'r farn bod gweithredoedd y DU gyfystyr â thorri'r Cytundeb, gallai arwain at anghydfodau pellach rhwng y DU a'r UE, ac mae'n bosibl terfynu'r Cytundeb, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.